Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

WCVA CGGC

Ariennir gan Lywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government

Landfill Disposal Tax Communities Scheme

Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi

Ysgogi a chefnogi gweithredu er budd cymunedau a'r amgylchedd

Diben yr arweiniad hwn yw helpu ymgeiswyr i ddeall mwy am Gynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi gan gynnwys pwy all ymgeisio am gyllid, pa fath o brosiectau y gallwn eu hariannu, a beth sydd ei angen gan ymgeiswyr.

Bydd canllawiau penodol ynglŷn â'r cwestiynau unigol yn y cais ar gael ar y ffurflen gais sydd ar gael yma.

Os oes gennych syniad prosiect yr hoffech ei drafod gyda'r tîm, anfonwch e-bost atom ar ldtgrants@wcva.cymru. Gallwch hefyd ffonio'r tîm ar 0300 111 0124 a dewis opsiwn tri ar gyfer grantiau a buddsoddiad cymdeithasol.

Tachwedd 2024

(Ewch ar y wefan i gael y fersiwn ddiweddaraf o'r arweiniad hwn)

Byddwn yn rhoi dau ddyddiad cau ar gyfer y cylch hwn o'r LDTCS, bydd hyn yn galluogi ceisiadau i gael eu hasesu'n amserol pan fyddant yn dod i law.

Os hoffech i'ch cais gael ei ystyried fel rhan o ffenestr 1, cyflwynwch **ef erbyn 20 Rhagfyr 2024.**

Os hoffech i'ch cais gael ei ystyried fel rhan o ffenestr 2, cyflwynwch **ef erbyn 07 Chwefror 2025.**

Bydd unrhyw geisiadau a gyflwynir erbyn dyddiad cau ffenestr 1 yn cael eu casglu gan yr aseswyr ar y dyddiad cau neu cyn hynny a bydd yr aseswr yn cysylltu â chi wedyn os oes unrhyw gwestiynau.

Bydd unrhyw geisiadau a gyflwynir erbyn dyddiad cau ffenestr 2 yn cael eu casglu ar y dyddiad cau neu cyn hynny a bydd yr aseswr yn cysylltu â chi wedyn gydag unrhyw gwestiynau.

Noder na roddir unrhyw ffafriaeth i'r rheini a gyflwynir erbyn dyddiad cau ffenestr 1, nod y broses yw sicrhau bod pob cais yn cael ei asesu'n effeithlon.

CYNLLUN CYMUNEDAU Y DRETH GWAREDIADAU TIRLENWI YNG NGHYMRU

Fis Ebrill 2018 datganolwyd casglu treth tirlenwi i Gymru. Mae £1.5 miliwn y flwyddyn wedi'i glustnodi i'r cynllun a bydd yn cael ei defnyddio i ariannu mentrau o fewn y cymunedau yr effeithir arnynt gan eu bod yn agos i safle tirlenwi neu orsaf drosglwyddo.

Mae Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yw olynydd y Gronfa Cymunedau Tirlenwi yng Nghymru.

Bydd y cynllun yn cefnogi prosiectau cymunedol ac amgylcheddol lleol mewn ardaloedd y mae gwaredu gwastraff i safle tirlenwi yn effeithio arnynt.

Ymysg y newidiadau allweddol yn y cynllun newydd y mae'r ffaith fod y gronfa bellach yn agored i ymgeiswyr o unrhyw sector. Mae'r meini prawf cymhwysedd wedi'u hehangu i gynnwys ceisiadau am brosiectau ar gyfer gweithgaredd a gynhelir o fewn 5 milltir i orsafoedd trin a throsglwyddo gwastraff yn ogystal â'r rheini o fewn 5 milltir i safleoedd tirlenwi.

EGWYDDORION CYFFREDINOL

Bydd y cynllun newydd yn seiliedig ar gyfres o egwyddorion cyffredinol, a fydd yn darparu fframwaith cyflawni gweithredol i'r cynllun. Datblygwyd yr egwyddorion cyffredinol gyda rhanddeiliaid yn ystod digwyddiadau a gynhaliwyd yn y gaeaf 2015/16. Nod Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi fydd:

Gwella ansawdd lle

- Hyrwyddo ymddygiad amgylcheddol cadarnhaol
- Lleihau'r effeithiau negyddol ar gymunedau yr effeithir arnynt gan warediad deunyddiau fel gwastraff i safleoedd tirlenwi
- Gwella mannau sy'n bodoli eisoes, boed y rheini'n fannau agored neu yn fannau ffisegol

Darparu buddion cymunedol ehangach

- Cefnogi cyfranogiad cymunedol – gwirfoddoli, datblygu sgiliau ac ati
- Hyrwyddo a chynnal perthynas dda rhwng gweithredwyr safleoedd tirlenwi, cymunedau a'r corff dosbarthu
- Cefnogi prosiectau cynaliadwy nad ydynt yn dibynnu ar gyllid parhaus

Sicrhau bod cymaint â phosibl o gyllid yn cyrraedd y mentrau

- Cynnal model gweinyddol cost effeithiol
- Gwneud cyllid yn hygyrch trwy ddarparu amcanion clir a dealladwy a phroses ymgeisio syml

1. PWY ALL FANTEISIO AR Y GRONFA?

Mae'r gronfa yn agored i geisiadau am brosiect o bob sector gan gynnwys mudiadau yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector

gwirfoddol/y trydydd sector. Bydd angen i bob prosiect ddangos yn glir y budd i'r gymuned y mae'r prosiect yn cael ei gynnal ynddi, wrth ddylunio'r prosiect ac wrth ei roi ar waith. Ffocws daearyddol y cynllun yw 5 milltir o amgylch safle tirlenwi (hyd nes y mae gwarediadau trethadwy wedi'u cwblhau) a 5 milltir o amgylch gorsaf drosglwyddo sy'n anfon o leiaf 2,000 tunnell o wastraff i safle tirlenwi bob blwyddyn. Nod hyn yw cydnabod y cymunedau hynny yr effeithir arnynt fwyaf gan waredu gwastraff i safle tirlenwi.

Cyn ymgeisio i'r gronfa, mae'n bwysig bod ymgeiswyr yn gwirio bod eu gweithgaredd arfaethedig yn disgyn o fewn ardal gymwys. Os yw rhan o'ch prosiect yn disgyn y tu allan i'r 5 milltir yna mae'n bosib y gall fod yn gymwys o hyd am gyllid rhannol os gallwch ddangos bod y gymuned a fydd yn cael budd ohono (ee gwirfoddolwyr, ymwelwyr neu fuddiolwyr) o fewn y 5 milltir hwnnw.

Mae'r map o safleoedd cymwys i'w weld ar y wefan yma.

Bydd prosiectau bioamrywiaeth sy'n ymestyn y tu allan i'r ffin 5 milltir yn cael eu hystyried gan fod y cynllun yn cydnabod nad yw cynefinoedd (megis afonydd) yn cydnabod ffiniau ac y gall y buddion ymestyn i ardaloedd heblaw am yr ardal lle mae gweithgaredd y prosiect yn digwydd, neu ar ben yr ardal honno. Bydd ceisiadau a gyflwynir sy'n perthyn i'r categori hwn yn cael eu hystyried fesul achos am gyllid llawn neu rannol (gweler adrannau 3 a 6 i gael manylion pellach ynghylch cymhwysedd) ar sail teilyngdod.

2. RHESTR WIRIO CYN YMGEISIO

Er mwyn bod yn gymwys, mae'n rhaid i chi:

- Fod yn gorff corfforedig wedi'i leoli yng Nghymru ac yn gweithredu er budd pobl Cymru
- Cael dogfennau llywodraethu sy'n cynnwys clo asedau priodol a rheolaeth dosbarthu difidend
- Bod â'r gallu i ddangos trosolwg ac annibyniaeth briodol o Fwrdd cymwys â chworwm sydd ag o leiaf tri chyfarwyddwr neu ymddiriedolwr
- Cael safonau polisi lleiaf priodol ar waith (ee diogelu).

Cyn ymgeisio i'r gronfa, sicrhewch y gallwch ddarparu'r canlynol gyda'ch cais:

- Cyfansoddiad/dogfennau llywodraethu'ch mudiad wedi'u llofnodi (gall eich Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol eich helpu gyda hyn os ydych yn grŵp sydd newydd ei ffurfio)
- Y caniatâd perthnasol i gynnal y gweithgaredd, gweler yr adran ar lesoedd a chytundebau tir
- Copïau wedi'u llofnodi o ddatganiadau ariannol diweddaraf eich mudiad neu'r cyfrifon blynyddol a archwiliwyd ddiwethaf
- Copi o Bolisi Amgylcheddol eich mudiad
- Copi o Bolisi Cyfle Cyfartal eich mudiad
- Tystiolaeth o gyllid cyfatebol – os bydd eich prosiect yn defnyddio cyllid o fwy nag un ffynhonnell, bydd angen i ymgeiswyr llwyddiannus ddarparu cadarnhad o gyllid cyfatebol cyn y gwneir y taliad grant cyntaf
- Datganiad banc wedi'i sganio/lawrlwytho i ddangos bod gennych gyfrif banc yn enw eich grŵp neu'ch sefydliad

2.1 Caniatâd

Bydd gofyn i ymgeiswyr y cynllun gadarnhau a thystio bod unrhyw gytundebau a chaniatâd tir gofynnol ar waith. Os oes angen caniatâd ar eich prosiect ac na allwch ddarparu'r wybodaeth hon, yn anffodus ni fyddwn yn gallu ystyried eich cais.

3. ARDALOEDD CYMWYS

Bydd Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ariannu prosiectau o fewn 5 milltir i rai gorsafoedd trosglwyddo gwastraff neu safleoedd tirlenwi penodol. Safleoedd cymwys yw'r rheini a adroddodd eu bod wedi anfon dros 2,000 tunnell i safle tirlenwi yn y flwyddyn adrodd, gall safleoedd cymwys newid rhwng rowndiau cyllido felly fe'ch cynghorir i wirio'r map pan fyddwch ar fin dechrau'ch cais. Diweddarir y map cyn i rownd gyllido agor; gan ddangos safleoedd cymwys ar gyfer y rownd honno. Gallwch weld y safleoedd hyn ar y map isod.

https://wcva.cymru/cy/cyllid/cynllun-cymunedau-y-dreth-gwarediadau-tirlenwi

4. PA FATH O BROSIECTAU A ARIENNIR?

Bydd y gronfa yn agored i unrhyw fudiad ar gyfer prosiectau sy'n canolbwyntio ar un neu fwy o'r themâu canlynol:

4.1 **Bioamrywiaeth –** creu Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth er budd cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol.

- Gwella amodau i helpu rhywogaethau cynhenid, pryfed peillio a darparu cyfleoedd plannu newydd
- Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol
- Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i fioamrywiaeth ymwreiddio

Mae'r thema fioamrywiaeth yn ymwneud â 'chadwraeth a hyrwyddo rhywogaeth benodol neu gynefin penodol lle y mae'n bodoli yn naturiol'. Mae sawl adnodd allweddol yn helpu i egluro cyflwr gwael presennol ein bioamrywiaeth a'r bygythiadau a ddaw gyda hyn i 'wasanaethau'r ecosystem' yr ydym ni'n dibynnu ar yr amgylchedd amdanyn nhw.

- Adroddiad Sefyllfa Byd Natur (2019)
- Adroddiad 'Sefyllfa Adnoddau Naturiol 2020' gan Cyfoeth Naturiol Cymru
- Millennium Ecosystem Assessment 'Ecosystems and Human Well-being'
- Adroddiad 'Living Planet' 2020 gan WWF

I gael gwybodaeth am rywogaethau yn eich ardal leol a'r camau gorau y gallwch eu cymryd i'w cefnogi gallwch gael cyngor gan eich Partneriaeth Natur Leol, cysylltwch â'ch Canolfan Cofnodion Amgylcheddol Lleol (Gogledd, De, Gorllewin a Chanolbarth Cymru), dewch o hyd i'ch Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt lleol neu edrychwch ar adnoddau Buddsoddi mewn Natur Cymru.

4.2 **Lleihau Gwastraff a Dargyfeirio Gwastraff o Safleoedd Tirlenwi** – hyrwyddo ymwybyddiaeth ac arferion gorau er mwyn lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir.

- Annog pobl i ailddefnyddio, adfer, ailgylchu ac atal gwastraff
- Lleihau gwastraff bwyd a chefnogi mentrau fel compostio
- Gwaith ymgysylltu a meithrin dealltwriaeth fel y bo gwastraff yn cael ei ystyried yn adnodd
- dan y thema hon, bydd y CCDGT yn rhoi blaenoriaeth i brosiectau sy'n canolbwyntio ar leihau gwastraff (gan gynnwys ailddefnyddio), gor ailgylchu a chompostio. Gall canllawiau Hierarchaeth Gwastraff Llywodraeth Cymru (https://llyw.cymru/arweiniad-ynghylch-gweithredur-hierarchiaeth-gwastraff-canllaw) helpu i benderfynu beth yw categori eich gweithgaredd

Mae'r thema hon yn ceisio 'hyrwyddo ymwybyddiaeth ac ymarfer gorau i leihau maint y gwastraff a gynhyrchir'. Bydd hyn yn helpu i leihau'r costau amgylcheddol a chyllidol sy'n gysylltiedig ag adnoddau sy'n cael eu gwastraffu a gall helpu i greu economi gylchol, lle gwelir gwastraff fel adnodd. Er mwyn cael mwy o wybodaeth ynglŷn â'r economi gylchol a beth mae hyn yn ei olygu, gallwch chi ymweld â gwefan WRAP Cymru.

Er mwyn cael mwy o wybodaeth ac ysbrydoliaeth, ewch i:

- Caru Bwyd Casán Gwastraff a Caru Eich Dillad – ynglŷn â phrosiectau lleihau gwastraff
- Fareshare Cymru a Repair Café – enghreifftiau ynglŷn â syniadau economi gylchol
- Cadwch Gymru'n Daclus – ymchwil ar wastraff a gwybodaeth am bolisïau ac enghreifftiau o weithredu cymunedol ysbrydoledig i ymdrin â gwastraff a sbwriel ar lefel gymunedol leol
- Taclo Tipio Cymru – adnoddau a syniadau ynglŷn ag ymgyrchoedd er mwyn ymdrin â sbwriel niwsans
- Y Gymdeithas Cadwraeth Forol – cyngor ynghylch glannau moroedd glân ac ysbwriel morol ac mae'n rhedeg BeachWatch drwy'r DU
- Cwmpas – darparu cefnogaeth ar gyfer mentrau cymdeithasol yng Nghymru sy'n ystyried treialu mentrau ailddefnyddio ac uwchgylchu

4.3 Gwelliannau amgylcheddol ehangach – dod â budd ehangach i gymunedau drwy wella ansawdd lle.

- Creu mannau gwyrdd cymunedol a chefnogi seilwaith gwyrdd
- Adfer mannau sydd wedi'u hesgeuluso ac sydd mewn cyflwr gwael er mwyn i gymunedau fedru eu hailddefnyddio
- Cynnal neu wella cyfleusterau cymunedol, er enghraifft, neuaddau cymunedol

Mae'r thema hon yn gyfle gwych i gyllido gweithgareddau sy'n dod â buddion ehangach i'r gymuned drwy wella ansawdd cyfleusterau cymunedol a mannau gwyrdd. Os ydych chi'n meddwl sefydlu prosiect i hyrwyddo neu wella man gwyrdd neu wella eich adeilad cymunedol, gall y canlynol fod yn adnoddau defnyddiol ar gyfer syniadau a data ymchwil:

- Adroddiad Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt Cymru 'Isadeiledd Gwyrdd: Catalydd ar gyfer Llesiant'
- Ymddiriedolaeth y Tir 'Gwerth Cudd ein Mannau Gwyrdd'
- Gweminar yr Ymddiriedolaeth Garbon ar Effeithlonrwydd Ynni
- Ymchwil gan Mind Cymru 'Go Green to Beat the Blues'
- Adnoddau Buddsoddi yn Natur Cymru

Mae gan sefydliadau fel Cadwch Gymru'n Daclus, Glandŵr Cymru, Groundwork Cymru a Groundwork Gogledd Cymru wybodaeth ac astudiaethau achos sy'n darparu syniadau ac ysbrydoliaeth hefyd.

5. BUDD CYMUNEDOL

Bydd angen i bob prosiect ddangos yn eu cais sut y bydd y prosiect o fudd i'r gymuned o fewn yr ardal gymwys. Dylid dangos bod gan y prosiect ddiddordeb a chefnogaeth y gymuned a'i fod yn cynnwys y gymuned. Gallai hyn fod drwy ganlyniadau arolwg, llythyrau o gefnogaeth, dyfyniadau gan bobl yn y gymuned, cynnwys y gymuned wrth roi'r prosiect ar waith, ayyb.

6. BYDD ANGEN I YMGEISWYR SICRHAU BOD EU PROSIECT/MUDIAD YN ATEB Y MEINI PRAWF CANLYNOL

Rhaid i'r gweithgaredd wneud y canlynol:

- cyfrannu at un neu fwy o dair thema Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi
- digwydd o fewn 5 milltir i safle Tirlenwi neu Orsaf Trosglwyddo/Trin Gwastraff gymwys. Bydd prosiectau bioamrywiaeth sydd â pheth gweithgaredd yn digwydd y tu allan i'r 5 milltir yn cael eu hystyried fesul achos – cysylltwch â ldtgrants@wcva.cymru os oes gennych unrhyw gwestiynau cyn ymgeisio

Rhaid i'r ymgeisydd fod:

- yn grŵp neu'n fudiad cyfansoddedig ac yn gallu darparu copïau o ddogfennau llywodraethu
- â'r caniatâd tir perthnasol, os oes angen
- â chyfrif banc (ni wneir taliadau grant i gyfrif banc unigolion)

Yr hyn na fydd Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ei ariannu:

- Prosiectau sydd eisoes wedi dechrau
- Prynu tir neu adeiladau
- Prosiectau ar dir neu gyfleuster nad yw'n agored i'r gymuned y mae'r prosiect wedi'i leoli ynddi
- Cyrff rheoleiddiol
- Gwelliannau gwedd strydoedd ee arwyddion, meysydd parcio
- Prosiectau ynni adnewyddadwy sy'n cael at dariffau cyflenwi trydan ee paneli solar
- Gweithgareddau sy'n cynhyrchu elw neu y gellid eu hystyried i fod yn rhan o weithrediadau arferol oni ellir dangos budd ychwanegol i'r amgylchedd a'r gymuned
- Adeiladau neu eiddo a ddefnyddir gan glybiau chwaraeon neu grwpiau ffydd yn unig nad ydynt hefyd yn cael eu defnyddio ar gyfer gweithgareddau cymunedol
- Adeiladau neu eiddo nad oes gan y cyhoedd fynediad rhesymol atynt, oni fyddai hyn yn amhriodol (ee lloches)
- Ni all ymgeiswyr ailymgeisio i'r Gronfa yn ystod y cyfnod y mae eu prosiect ar waith onid yw hynny i ariannu prosiect gwahanol mewn lleoliad arall neu i gynnal set wahanol o weithgareddau.

Sylwer: Nid ystyrir ceisiadau gan gyrff cyhoeddus ar gyfer gweithgareddau sy'n ymwneud â'u cyfrifoldebau statudol dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 neu Fesur Gwastraff (Cymru) 2010.

Mae prosiectau sy'n cynnig gwneud gwaith cynnal a chadw neu welliannau i eiddo yn gymwys am gyllid, a bwrw eu bod ar gael i'r gymuned ehangach, ac yn cael eu cefnogi ganddi. Mae'n debygol y bydd cynigion sy'n gallu dangos sut y byddant yn cynnwys gwella effeithlonrwydd adnoddau a bioamrywiaeth eiddo o fewn y prosiect arfaethedig yn sgorio'n uwch

7. SUT MAE'R GRONFA'N GWEITHIO?

7.1 Prif grantiau

Bydd y Gronfa yn cynnig grantiau gwerth rhwng £5,000 – £49,999 i brosiectau sy'n ateb un neu fwy o dair thema'r cynllun. Ceir proses ymgeisio un cam ar gyfer y grantiau hyn, a chyhoeddir canllawiau manwl a ffynonellau cymorth ar wefan CGGC yma. Cyhoeddir penderfyniadau tua 12 wythnos ar ôl y dyddiad cau i ymgeisio am grant. Gall prosiectau a ariennir yn 2024-25 redeg am o leiaf 6 mis, gan ddechrau ddim cynharach na 05 Mai 2025 a rhaid iddynt fod â dyddiad cwblhau o ddim hwyrach na 05 Mai 2028.

7.2 Grant o arwyddocâd cenedlaethol

Gall CGGC ddyfarnu grant i un prosiect o arwyddocâd cenedlaethol y flwyddyn – gwerth mwy na £50,000 ac i fyny i £250,000.

Nod y Grant o Arwyddocâd Cenedlaethol yw ariannu prosiect a fydd yn cyfrannu at o leiaf ddwy o themâu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi ac a fydd yn berthnasol ledled ardaloedd ehangach yng Nghymru.

Dylai ymgeiswyr allu dangos yr effaith strategol y byddant yn ei chael drwy gynnal eu prosiect arfaethedig. Croesawir prosiectau a gynhelir mewn partneriaeth. Bydd unrhyw gais gan bartneriaeth neu gais ar y cyd yn cael ei gyflwyno gan un partner arweiniol a fydd, os yw'r cais yn llwyddo, yn rheoli'r prosiect ac yn dal y cytundeb grant â WCVA.

Mae'r ffurflen gais yn dilyn yr un fformat â phrif gynllun grant Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi, gyda rhai cwestiynau ychwanegol sy'n gofyn i ymgeiswyr ddangos cynaliadwyedd gweithgaredd eu prosiect a'i effaith ar raddfa ehangach. Dylai pob ymgeisydd allu disgrifio'n glir pam mae eu prosiect a'i effaith o arwyddocâd cenedlaethol. Wrth asesu eich

cais, efallai y bydd asesydd CGGC yn cysylltu â chi a gofynnir i chi roi eglurhad pellach, cyn i'r cais fynd at y panel.

Unwaith y bydd eich cais wedi'i asesu, caiff ei gyflwyno i Banel Cynghori Arbenigol y CCDGT. Os bydd eich cynnig prosiect yn ddigon uchel, cewch eich gwahodd i ateb rhai cwestiynau pellach a bennwyd gan y panel. Cewch wybod am ddyddiad cyfarfod y Panel unwaith y bydd eich cais yn cael ei gyflwyno. Gwnewch yn siŵr eich bod ar gael y diwrnod hwn, rhag ofn y cewch eich gwahodd i gyflwyno.

Byd grant o Arwyddocad Cenedlaethol yn canolbwyntio ar rai, neu'r holl bethau, canlynol;

- Grant o arwyddocad penodol neu fater sy'n benodol i Gymru;
- Neu fod yn brosiect sy'n cael ei gyflawni'n strategol i fynd i'r afael â'r un mater ar draws nifer o ardaloedd daearyddol yng Nghymru (iddo fod ag arwyddocâd cenedlaethol);
- Dylai gynnwys rhai elfennau o ddarparu partneriaeth; a
- Bod â chysylltiad clir â chyflawni materion a nodwyd ym mholisi Llywodraeth Cymru (er y gallai hyn fod yn anodd i gymunedau os nad ydynt yn ymwybodol o'r polisi diweddaraf, felly gallai hyn fod yn rhywbeth sy'n cryfhau cais yn hytrach na bod yn ganolbwynt) – bydd CGGC yn ymgynghori ar y polisi sy'n cyd-fynd â'r tîm(au) perthnasol o fewn Llywodraeth Cymru.

Bydd angen i geisiadau am y grant hwn o arwyddocâd cenedlaethol ddangos menter strategol gyda manteision hirdymor.

Gwerth am arian: bydd yr ymgeisydd yn cwblhau profforma cyllideb fel rhan o'r broses ymgeisio. Asesir hyn er mwyn penderfynu a yw'r prosiect yn cynnig gwerth cryf am arian o'i gymharu â'r cyraeddiadau a fydd yn cael eu hystyried yn naratif y cais a wnaed.

Cyn gwneud cais i'r Grant o Bwysigrwydd Cenedlaethol - ystyriwch y canlynol

Ystyriaethau wrth benderfynu beth ddylai fod yn Brosiect o Arwydd Cenedlaethol:

- Pa mor fawr yw nifer y bobl/nifer yr Awdurdodau Lleol sy'n elwa o weithredu'r cynllun?
- A yw'n darparu cyflogaeth a/neu ddatblygiad sgiliau i'r gymuned yn yr ardal a dargedir?
- Os yw'n defnyddio dull sy'n seiliedig ar le, a yw'n darparu deunydd dysgu fel y gellir rhannu'r arferion ymhlith Awdurdodau Lleol eraill, ar yr amod bod y prosiect yn llwyddiannus?
- A yw'n defnyddio technoleg neu arfer sy'n arwain y byd? Os felly, a fydd yn dwyn sylw at Gymru a'r posibilrwydd o fwy o dwristiaeth?
- Er ei fod yn parhau i fod yn gynaliadwy yn economaidd, a yw'n cynnig cyfle i ddatblygu ymhellach trwy fuddsoddiadau yn y dyfodol, efallai'n lledaenu i gwmpasu meysydd eraill ac o bosibl yn cael ei ariannu gan y grant llai o £ 5,000 – £ 49,999?

Cynghorir ymgeiswyr sy'n dymuno gwneud cais am grant arwyddocâd cenedlaethol cryf i gysylltu â CGGC cyn gwneud cais i drafod eu syniad o brosiect. Anfonwch e-bost ldtgrants@wcva.cymru neu ffoniwch y tîm ar 0300 111 0124 a dewiswch opsiwn 3 ar gyfer grantiau a buddsoddiad cymdeithasol.

7.3 Cyllid Cyfatebol

Nid oes angen cyllid cyfatebol ar gyfer y cynllun a gall y cynllun gefnogi 100% o gostau prosiect. Er nad yw cyllid cyfatebol yn ofyniad penodol yn y cynllun, gellir ei ddefnyddio i gefnogi prosiectau ehangach ar y cyd â ffynonellau eraill o gyllid.

Gellir cynnwys cyllid cyfatebol mewn nwyddau ym mhroffil eich prosiect, er enghraifft, darparu gweithiau, nwyddau, deunyddiau neu wasanaethau a roddir i'r prosiect gan ddarparwr arall.

Gellir hefyd gynnwys oriau gwirfoddolwyr ym mhroffil y prosiect.

8. Y BROSES YMGEISIO

Bydd ceisiadau'n cael eu gwneud drwy borth grant ar-lein – Porth Ceisiadau Amlbwrpas (MAP) – map.wcva.cymru. Er mwyn gwneud cais i'r CCDGT, bydd angen i chi gofrestru gyda MAP. Os ydych yn cael trafferth cofrestru gyda MAP, mae canllaw fideo ar yr hafan a fydd yn eich cynorthwyo. Os oes gennych unrhyw broblemau technegol gyda MAP, gallwch anfon e-bost map@wcva.cymru a bydd rhywun yn gallu eich cynorthwyo.

9. Y BROSES BENDERFYNU

Unwaith mae'r dyddiad cau i ymgeisio wedi pasio, dilynir y broses ganlynol:

1. Bydd CGGC yn asesu ceisiadau i sicrhau eu bod yn gymwys
2. Bydd ceisiadau yn cael eu dosbarthu i'r Cynghorau Gwirfoddol Sirol perthnasol i'w hasesu
3. Bydd CGGC yn gwirio ansawdd yr asesiadau o'r ceisiadau
4. Cyflwynir ceisiadau i Banel Cynghori Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i gael ei sylwadau
5. Cynhelir cyfarfod o Banel Cynghori Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi i wneud y penderfyniad terfynol ynghylch cyllido
6. Bydd prosiectau yn cael gwybod canlyniad eu cais o fewn 12 wythnos ar ôl y dyddiad cau
7. Bydd prosiectau llwyddiannus yn cael llythyr dyfarnu grant neu'n cael gwybod am unrhyw amodau i'r grant sy'n cael ei ddyfarnu
8. Rhoddir gwybod i ymgeiswyr aflwyddiannus, gan roi adborth yn y llythyr canlyniad

10. TALU GRANT

Bydd grantiau i ymgeiswyr llwyddiannus yn cael eu talu 80% ymlaen llaw a'r 20% arall yn amodol ar adroddiad prosiect terfynol cyflawn. Ni all ymgeiswyr ailymgeisio i'r Gronfa yn ystod y cyfnod y mae eu prosiect ar waith onid yw hynny i ariannu prosiect gwahanol mewn lleoliad arall neu i gynnal set wahanol o weithgareddau. Bydd adroddiadau monitro yn ofynnol bob chwe mis drwy ffurflen a roddir i ymgeiswyr llwyddiannus. Ni wneir taliadau grant i gyfrif banc unigolion. Bydd

angen i bob ymgeisydd gyflwyno datganiad banc ynghyd â'u cais i ddangos tystiolaeth o gyfrif yn enw'r sefydliad neu'r grŵp.

11. LESOEDD, CYTUNDEBAU A THRWYDDEDAU TIR

Caniatâd Tir

Os bydd gweithgaredd prosiect yn digwydd ar dir nad yw grŵp y prosiect yn berchen arno, rhaid cael llythyr o gefnogaeth gan y perchennog tir yn cadarnhau ei fod yn cytuno i weithgareddau'r prosiect.

Os yw'r prosiect yn cynnwys addasu'r tir neu wariant cyfalaf mewn unrhyw ffordd – ee codi byrddau dehongli, creu pwll dŵr, plannu coed – yna mae angen i'r grŵp gael les ar y tir neu gytundeb trwydded â'r perchennog. Diben hyn yw gwarchod allbynnau'r prosiect a sicrhau nad oes perygl iddynt gael eu niweidio.

Cynghorwn i ymgeiswyr gael les neu gytundeb trwydded am o leiaf deng mlynedd ac yn ddelfrydol am gyhyd ag sy'n bosib.

Os nad oes modd cael les neu drwydded ar y tir yna, gan ddibynnu ar raddfa'r prosiect, efallai y gallwn dderbyn llythyr gan berchennog y tir yn caniatáu'r gweithgareddau. Rhaid i'r llythyr hwn ddatgan nad oes cynlluniau i ddatblygu'r tir na cheisio newid defnydd o'r tir mewn unrhyw ffordd a fyddai'n niweidio allbynnau'r prosiect am o leiaf deng mlynedd.

Os oes gan ymgeiswyr y canlynol:

- les sydd â llai na deng mlynedd ar ôl arno;
- trwydded a adnewyddir yn flynyddol;
- unrhyw drwydded tir arall sydd â llai na deng mlynedd ar ôl arni neu sydd o hyd amhenodol;

Rhaid hefyd ddarparu llythyr gan berchennog y tir yn cadarnhau na fydd bygythiad, y gellir ei ragweld, i allbynnau'r prosiect am deng mlynedd.

Mae rhai perchnogion yn rhoi caniatâd ar lafar i'ch prosiect ddechrau. Dylech bob amser ofyn am lythyr sy'n rhoi caniatâd i chi ddechrau gweithio ar y safle, o leiaf. Os nad oes arnoch angen mynediad at y safle i chi'n unig na threfniant tymor byr, gall trwydded i feddiannu fod yn ddigon ar gyfer prosiectau sydd â risg isel a gwariant isel megis man tyfu cymunedol bach. Serch hynny, mae angen i chi gofio nad yw trwydded yn rhoi llawer o sicrwydd i chi fod ar y safle yn ystod ac yn enwedig ar ddiwedd y tymor. Mae les yn rhoi meddiant unigryw o'r safle am gyfnod tymor penodol. Mae les hir heb gymalau terfynu yn rhoi sicrwydd da a hefyd yn rhoi sicrwydd i wirfoddolwyr, buddsoddwyr a chyllidwyr.

Ariennir CLAS Cymru (Gwasanaeth Cynghori ar Dir Cymunedol) gan Lywodraeth Cymru i'ch helpu i sicrhau pob caniatâd angenrheidiol i fod ar safle'ch prosiect. Gall y Gwasanaeth eich helpu i gael y sgyrsiau cywir â'r bobl gywir. Mae'n rhoi cyngor ar y math cywir o gytundebau, cymalau a chaniatâd i wneud y gweithgareddau yr hoffech eu gwneud ar y safle yr ydych wedi'i ddewis. I gael cyngor ar gytundebau tir a'r caniatâd perthnasol, cysylltwch â CLAS Cymru drwy ffonio 029 2022 5942 neu ebostio wales@farmgarden.org.uk.

Trwyddedau

Os ydych yn trosglwyddo gwastraff fel rhan o'ch busnes, fydd angen i chi fod wedi'ch cofrestru fel cludwr gwastraff.

https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/waste-permitting/register-as-a-waste-carrier-broker-or-dealer/

Hwyrach y bydd hefyd angen trwydded amgylcheddol arnoch chi os yw'ch busnes yn defnyddio, yn trin, yn adfer, yn storio neu'n gwaredu gwastraff.

Mae rhai gweithgareddau gwastraff wedi'u heithrio rhag yr angen am Drwydded a gellir eu gweithredu o dan eithriad yn lle hynny.

Ar hyn o bryd mae tua 60 o eithriadau gwahanol ar gael ac mae pob un yn caniatáu rhai gweithgareddau sy'n ymwneud â gwastraff i gael eu cynnal. Mae gan bob un gyfyngiadau ac amodau ynghlwm wrthynt y

mae'n rhaid i chi gadw atynt neu bydd yr eithriad yn cael ei ystyried yn annilys.

Os ydych chi eisiau gweithredu o dan eithriad gwastraff rhaid i chi gofrestru'r eithriad hwnnw gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Os nad ydych chi'n cofrestru neu'ch bod chi'n gweithredu y tu hwnt i'r cyfyngiadau a amlinellir yn yr eithriadau, fe allech chi fod wrth risg o gamau gorfodi. Mae pob cofrestriad yn para 3 blynedd. Yna bydd y cofrestriad yn dod i ben oni bai eich bod chi'n ailgofrestru'r Eithriadau yr ydych chi eisiau parhau i'w defnyddio.

https://naturalresources.wales/permits-and-permissions/waste-permitting/registering-waste-exemptions-for-a-linear-network?lang=cy

ARWEINIAD I YMGEISWYR AR DARGEDAU PROSIECT

Bydd pob prosiect yn ymgeisio o dan un o'r tair thema ganlynol:

1 **Bioamrywiaeth** – creu Rhwydweithiau Ecolegol Cydnerth er budd cynefinoedd a rhywogaethau amrywiol.

- Gwella amodau i helpu rhywogaethau cynhenid, pryfed peillio a darparu cyfleoedd plannu newydd
- Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol
- Ennyn a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth er mwyn i ioamrywiaeth ymwreiddio

2 **Lleihau gwastraff a dargyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi** – hyrwyddo ymwybyddiaeth ac arferion gorau er mwyn lleihau maint y gwastraff a gynhyrchir.

- Annog pobl i ailddefnyddio, adfer, ailgylchu ac atal gwastraff
- Lleihau gwastraff bwyd a chefnogi mentrau fel compostio
- Gwaith ymgysylltu a meithrin dealltwriaeth fel y bo gwastraff yn cael ei ystyried yn adnodd

3 **Gwelliannau amgylcheddol ehangach** – dod â budd ehangach i gymunedau drwy wella ansawdd lle.

- Creu mannau gwyrdd cymunedol a chefnogi seilwaith gwyrdd
- Adfer mannau sydd wedi'u hesgeuluso ac sydd mewn cyflwr gwael er mwyn i gymunedau fedru eu hailddefnyddio
- Cynnal neu wella cyfleusterau cymunedol, er enghraifft, neuaddau cymunedol

Yn ogystal â chyd-fynd ag un o'r themâu hyn, bydd angen i'r ymgeisydd amlinellu targedau realistig mewn perthynas â cherrig milltir cyffredinol y prosiect a hefyd gerrig milltir y prosiect yn ymwneud â'i thema.

Fel rhan o'r broses ymgeisio, bydd angen i ymgeiswyr ddewis i ba un o dair thema Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi y mae eu

gweithgareddau yn perthyn. Ym mhroffil y prosiect, bydd hefyd angen iddynt osod targedau priodol i helpu i ddangos yr effaith bosib y maent yn disgwyl i'r gweithgareddau hyn ei chael.

Mae'r arweiniad canlynol yn rhoi cyd-destun ynglŷn â sut y dewiswyd themâu'r cynllun; gwybodaeth ynglŷn â gofynion monitro; a'r cerrig milltir cyffredinol a'r rhai penodol i thema y bydd gofyn i ymgeiswyr eu mesur ar gyfer eu prosiect.

Os ydych yn ansicr i ba thema mae'ch prosiect yn perthyn, cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol am gymorth ac arweiniad neu ebostiwch LDTgrants@wcva.cymru.

1. **Sut y dewiswyd themâu Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi a beth yw eu perthynas â pholisi Llywodraeth Cymru?**

   Mae Cynllun Cymunedau y Dreth Gwarediadau Tirlenwi yn ceisio helpu cymunedau i gyfrannu at saith nod llesiant cenedlaethol Cymru. Mae'r nodau hyn yn cynnwys 4 colofn sy'n allweddol i lesiant – amgylcheddol, economaidd, cymdeithasol a diwylliannol – sydd angen eu gwarchod a'u hybu fel y gall cenedlaethau'r dyfodol hefyd fwynhau Cymru lewyrchus, iach, cyfartal, cydnerth, sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang, ac sydd â chymunedau cydlynus a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu.

   Er mwyn gwireddu'r nodau hyn, mae angen cadw at egwyddorion cynaliadwyedd – sef diwallu anghenion heddiw heb amharu ar allu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.

   Un ffordd y mae Cymru yn mynd ati i roi'r ymrwymiad hwn ar waith yw drwy'r Polisi ar Adnoddau Naturiol, sy'n nodi tair blaenoriaeth i'w gweithredu.

   - Cynnig atebion sy'n seiliedig ar natur – gweithio gyda natur i fynd i'r afael â phroblemau cymdeithasol, economaidd ac eraill mewn ffordd sy'n cefnogi ein bywyd gwyllt a'n hecosystemau yn hytrach na'u gwanhau. Yn aml, bydd camau yn y categori hwn ee plannu coed ar ochr strydoedd i wella ansawdd aer neu wella ansawdd dŵr afon, yn cael effaith yn lleol ond hefyd yn rhanbarthol, yn genedlaethol ac yn

fyd-eang drwy gyfrannu at heriau ehangach megis colli bioamrywiaeth neu newid yn yr hinsawdd.
- Cynhyrchu mwy o ynni adnewyddadwy a defnyddio adnoddau'n fwy effeithlon – symud tuag at economi fwy cylchol lle rydym yn defnyddio llai o adnoddau i ddarparu'r pethau rydym eu hangen, yn cadw cynhyrchion neu eu darnau cydrannol mewn defnydd am gyhyd â phosib, ac yn creu llai o lygredd a gwastraff. Mae ymchwil yn awgrymu y gallai symud at economi gylchol yng Nghymru arbed £2 biliwn i economi Cymru a darparu 30,000 o swyddi newydd.
- Gweithredu mewn ffordd sy'n seiliedig ar leoedd – cydweithio â chymunedau yn lleol i ddeall heriau a phrofi atebion. Cymunedau sydd yn y sefyllfa orau i siapio a deall blaenoriaethau a chyfleoedd lleol a dod o hyd i atebion ymarferol sy'n cynnig y buddion ehangaf posib.

Dewiswyd tair thema'r Cynllun i adlewyrchu'r blaenoriaethau hyn, a fydd yn eu tro yn helpu Cymru i wneud cynnydd tuag at ei nodau llesiant.

2. A fydd angen i mi sôn am bolisi Llywodraeth Cymru yn fy nghais?

Mae'r Cynllun wedi'i ddylunio i ariannu prosiectau sy'n cyfrannu at y blaenoriaethau uchod. Yn y mwyafrif o achosion, os gallwch ddangos bod eich prosiect yn ateb y meini prawf o dan y thema berthnasol a'i fod yn cynnwys y gymuned fel sy'n briodol, ni ddisgwyliwn i chi sôn am y polisi. Ar gyfer prosiectau mwy arbenigol neu anarferol, gall fod o gymorth pe baech yn cyfeirio at agweddau penodol ar bolisïau neu unrhyw Gynlluniau Gweithredu neu Strategaethau y mae'ch prosiect wedi'i ddylunio i gyfrannu atynt, os ydych yn gwybod amdanynt.

3. Beth a ofynnir i mi ei fesur?

Ar y ffurflen gais gofynnir i chi osod dangosyddion a thargedau y gallwch fesur llwyddiant eich prosiect yn eu herbyn. Mae peth gwybodaeth y disgwyliwn i bob prosiect ddarparu a gosod targedau ar eu cyfer – er enghraifft, nifer y gwirfoddolwyr a fydd yn rhan o'r prosiect a nifer y bobl rydych yn gobeithio eu cyrraedd. Rhestrir y rhain isod fel Targedau Cyffredinol.

Gofynnir i chi hefyd fesur pethau penodol sy'n berthnasol i Fioamrywiaeth, Lleihau Gwastraff neu Welliannau Amgylcheddol Ehangach gan ddibynnu ar y thema rydych yn ymgeisio oddi tani. Rhestrir y rhain ar y ffurflen gais mewn cwymplen. Ni fydd pob targed yn berthnasol i'ch prosiect chi; dylech ddewis y rheini y byddwch yn gallu eu mesur, a'r rheini a fydd yn dangos orau yr effaith rydych yn gobeithio ei chael. Rhestrir y rhain isod fel Targedau Thematig.

Byddwch yn llenwi'r Targedau Cyffredinol a'r Targedau Thematig fel rhan o'r broses ymgeisio o fewn y tab Targedau'r Prosiect ym Mhroffil y Prosiect Treth Gwarediadau Tirlenwi.

Os ydych yn llwyddo i sicrhau cyllid, gofynnir hefyd i chi fesur yr effaith y mae gweithgareddau'ch prosiect wedi'i chael ar lesiant pobl leol (hy buddiolwyr, trigolion, neu wirfoddolwyr) ac a ydynt yn teimlo'n fwy bodlon â'u hardal leol fel lle i fyw ynddo o ganlyniad i weithgaredd eich prosiect. Bydd y ffordd rydych yn gwneud hyn yn gymesur â maint eich prosiect a'i fath, gan amrywio o holiaduron syml 'cyn ac ar ôl' neu adroddiadau anecdotaidd, i arolygon neu astudiaethau mwy cymhleth.

4. Pam mae angen y wybodaeth hon?

Bydd y targedau y mae ymgeiswyr yn eu dewis ar gyfer eu prosiect yn cael eu monitro drwy gydol oes y grant.

Bydd casglu'r wybodaeth hon gan y rheini sy'n cael grant yn ein helpu i ddangos yr effaith gyfunol y mae'r arian o'r Cynllun wedi'i gwneud yn bosib a'r effaith y mae wedi'i chael ar fywydau pobl sy'n byw ger safleoedd tirlenwi neu drosglwyddo gwastraff. Bydd hefyd yn ein helpu i ddangos sut y gall prosiectau cymunedol cydweithredol gyfrannu at y Polisi ar Adnoddau Naturiol ac at Nodau llesiant ehangach Cymru i roi ysbrydoliaeth a gwybodaeth i eraill.

TARGEDAU PROSIECTAU CYNLLUN CYMUNEDAU Y DRETH GWAREDIADAU TIRLENWI

Fel yr eglurwyd, bydd pob prosiect yn gosod ei dargedau ei hun, a rhaid i'r rhain gynnwys o leiaf un Targed Cyffredinol ac un Targed Thematig. Os oes disgwyl i'ch prosiect gyflawni targedau o fwy nag un thema, cofiwch gynnwys y rhain ym mhroffil eich prosiect. Dylech gynnwys gynifer o

dargedau ag sy'n berthnasol gan y bydd hyn yn helpu i ddangos yr amrywiaeth lawn o ran effaith bosib eich gweithgareddau.

Targedau Cyffredinol (dylai pob ymgeisydd broffilio yn erbyn o leiaf un o'r rhain)
Nifer y cymunedau sy'n elwa ar gyllid CCDGT
Nifer y bobl sy'n cymryd rhan ac yn wybodus (gan gynnwys gwirfoddolwyr ac aelodau o'r gymuned)
Digwyddiadau Ymgysylltu neu ymgyrchoedd Codi Ymwybyddiaeth
Mae'r dangosyddion canlynol yn benodol i'r thema y mae'r ymgeisydd yn ei chymhwyso o dan
Thema Benodol – Bioamrywiaeth
Gwella amodau i helpu rhywogaethau brodorol, pryfed peillio a darparu cyfleoedd ar gyfer plannu newydd
Adfer, cynnal a gwella cynefinoedd naturiol
Ymgysylltu a chefnogi cyfranogiad a dealltwriaeth i ymgorffori bioamrywiaeth
Safleoedd o rywogaethau goresgynnol estron a reolir
Safleoedd plannu sy'n ystyriol o Beillio a grëwyd fel rhan o raglen rheoli cynefinoedd ehangach
Coetir wedi'i reoli
Thema benodol – Lleihau Gwastraff
Annog atal, ailddefnyddio, adfer ac ailgylchu gwastraff
Ymgysylltu a chefnogi dealltwriaeth er mwyn gallu ystyried gwastraff fel adnodd
Lleihau gwastraff bwyd ac ailddosbarthu bwyd dros ben
Thema benodol – Gwella'r Amgylchedd Ehangach
Creu a gwella dŵr cymunedol a mannau gwyrdd a chefnogi seilwaith gwyrdd
Dod ag ardaloedd sydd wedi'u hesgeuluso a'u lleihau yn ôl i ddefnydd y gymuned Cynnal neu wella cyfleusterau cymunedol, er enghraifft neuaddau cymunedol.
Gosod mesurau effeithlonrwydd adnoddau/ynni adnewyddadwy

Cyfleusterau wedi'u diweddaru gyda dewisiadau amgen sy'n ystyriol o natur
Thema benodol - Lleihau Gwastraff

CYMORTH AC ARWEINIAD PELLACH

Am unrhyw ganllawiau pellach, cysylltwch â LDTgrants@wcva.cymru neu ffoniwch dîm help CGGC ar 0300 111 0124 a dewiswch opsiwn 3 ar gyfer grantiau buddsoddiad cymdeithasol.

I gael cymorth i ddatblygu'ch prosiect cysylltwch â'ch Cyngor Gwirfoddol Sirol lleol.